GENERATION NEW ERA
A STUDY OF CHILDREN BORN IN THE 2020s

Swansea University Prifysgol Abertawe

UCL University College London

OS OES ANGEN PRINT BRAS ARNOCH, FFONIWCH NI AM DDIM AR 0800 151 0610 NEU E-BOSTIWCH gnestudy@ipsos.com

FE'CH GWAHODDIR I FOD YN RHAN O GENERATION NEW ERA

Annwyl Riant,

Rydym yn ysgrifennu i'ch gwahodd i **fod yn rhan o Generation New Era** – astudiaeth newydd yn y DU o 30,000 o fabanod a anwyd yn 2026, a'u teuluoedd. Efallai eich bod yn cofio derbyn llythyr oddi wrthym ychydig fisoedd yn ôl.

Mae'r astudiaeth yn casglu gwybodaeth wyddonol bwysig am iechyd plant a sut maen nhw'n tyfu i fyny yn ein byd newidiol. Bydd hyn yn helpu gwella cymorth i deuluoedd ledled y DU. Mae'n cynnwys cyfweliadau â mamau a thadau amdanyn nhw eu hunain a'u baban.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth a'r hyn y byddwn yn gofyn i chi amdano yn gnestudy.info, lle gallwch hefyd gael copi o ganllaw'r astudiaeth. Eich dewis chi yw cymryd rhan ai peidio a gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Fel diolch am gymryd rhan, **byddwch chi'n derbyn taleb.**

Mae Generation New Era yn cael ei arwain gan Goleg y Brifysgol Llundain (UCL) a Phrifysgol Abertawe. Cynhelir y cyfweliadau gan dri sefydliad ymchwil annibynnol – Ipsos, NatCen a Verian. Telir amdano gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

- **Bydd cyfwelydd cyfeillgar, hyfforddedig yn ymweld â'ch cyfeiriad** yn y dyddiau nesaf i roi gwybod i chi am yr astudiaeth ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. **Os byddwch chi allan neu os nad yw'n gyfleus**, byddant yn dychwelyd rhywdro arall.
- **Os hoffech chi gymryd rhan**, bydd y cyfwelydd yn trefnu cyfweliad ar amser sy'n gyfleus i chi. **Bydd eich cyfwelydd yn cario cerdyn adnabod â llun**, er mwyn i chi wirio pwy ydyn nhw.
- Gan mai dim ond eich enw a'ch cyfeiriad sydd gennym, ni all y cyfwelydd anfon e-bost neu anfon neges destun atoch. Gallwch rannu eich manylion cyswllt, neu'r amser gorau i ymweld ar **ipsos.uk/contactgne**.
- Os yw'n well gennych beidio â chymryd rhan, rhowch wybod i ni ar **Radffôn 0800 151 0610** neu **gnestudy@ipsos.com** – byddwn yn rhoi gwybod i'r cyfwelydd ac ni fyddwn yn cysylltu â chi ymhellach.

Diolch ymlaen llaw am eich help. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn penderfynu bod yn rhan o'r astudiaeth bwysig hon. Darllenwch y llyfryn amgaeedig a'r Cwestiynau ac Atebion ar gefn y llythyr hwn am ragor o wybodaeth.

Yn gywir,

Yr Athro Alissa Goodman, CBE
Cyfarwyddwr yr Astudiaeth, DU
Coleg Prifysgol Llundain

Yr Athro Lucy Griffiths
Cyfarwyddwr yr Astudiaeth, Cymru
Prifysgol Abertawe

Trowch drosodd →

Beth mae'n ei olygu?

Rydym ni eisiau clywed gan famau a thadau i'n helpu ni i adeiladu darlun llawn o fywyd pob plentyn. Os ydych chi'n byw gyda rhiant arall eich plentyn, efallai eu bod nhw hefyd wedi derbyn y llythyr hwn. I un rhiant, bydd y cyfweliad yn cymryd tua 60 munud wyneb yn wyneb gyda'r cyfwelydd, ac i'r rhiant arall (os ydyn nhw'n byw yn yr un cyfeiriad) tua 30 munud, a gellir gwneud hyn wyneb yn wyneb ac ar-lein. **Chi sydd i benderfynu a ydych am gymryd rhan.**

Bydd un rhiant yn cael gwahoddiad i lawrlwytho ap ffôn clyfar BabySteps yr astudiaeth – gallwch olrhain cerrig milltir eich babi ac ennill talebau ychwanegol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil.

Hoffem siarad â chi eto bob ychydig flynyddoedd i ddarganfod sut mae eich plentyn yn dod ymlaen wrth iddo/iddi dyfu i fyny – y tro nesaf yn ôl pob tebyg fydd pan fydd yn 3 oed. **Chi fydd yn penderfynu bob amser** a ydych am gymryd rhan.

Mae'r DU yn arwain y byd yn y math hwn o ymchwil, gydag astudiaethau cenedlaethol o bobl a anwyd ym 1946, 1958, 1970 a 2000 yn dal i redeg heddiw.

Sut cefais fy newis ar gyfer yr astudiaeth hon?

Mae'r astudiaeth yn cynnwys babanod sydd wedi'u geni yn 2026. Ni allwn wahodd pawb, ond mae'r teuluoedd a wahoddir i gymryd rhan yn adlewyrchu amrywiaeth pob rhanbarth a'r DU gyfan.

Mae teuluoedd wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan gan ddefnyddio cofnodion geni a gedwir gan GIG Lloegr ar gyfer Cymru a Lloegr, a roddodd eich enw, cyfeiriad a gwybodaeth ychwanegol amdanoch chi a'ch babi. Mae gennym gymeradwyaeth arbennig gan Grŵp Ymgynghorol Data annibynnol GIG Lloegr i dderbyn gwybodaeth o gofnodion genedigaethau fel y gallwn gysylltu â chi.

Mae defnyddio gwybodaeth gyfrinachol cleifion heb ganiatâd wedi derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd yn dilyn cyngor gan y Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd. Fe wnaethant adolygu'r astudiaeth yn ofalus i sicrhau bod eich data a'ch preifatrwydd yn cael eu diogelu.

Beth os ydw i'n byw ar wahân i riant arall fy maban?

Er mwyn ein helpu i ddeall bywyd pob plentyn yn llawn, rydym am gynnwys mamau neu dadau sy'n byw ar wahân i riant arall eu plentyn. Os ydych chi'n byw ar wahân i riant arall eich plentyn, byddwn yn gofyn i chi am gysylltu â nhw yn ystod eich cyfweliad. Os yw'n well gennych i ni beidio â chysylltu â rhiant arall eich plentyn, neu os oes gennych unrhyw bryderon, gallwch roi gwybod i'ch cyfwelydd.

Sut mae fy ngwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel?

Bydd eich atebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol a'u defnyddio ar gyfer ymchwil yn unig. Caniateir i UCL ddefnyddio eich data personol oherwydd bod yr astudiaeth yn cael ei chynnal ar gyfer tasg er budd y cyhoedd o dan y GDPR, y ddeddf sy'n amddiffyn eich gwybodaeth bersonol. Os dewiswch beidio â chymryd rhan, ni fydd eich enw a'ch cyfeiriad chi na'ch babi o gofnodion geni yn cael eu cadw na'u defnyddio at unrhyw ddiben arall. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth ddemograffig gyfyngedig arall o gofnodion geni i'n helpu i ddeall pwy sy'n cymryd rhan a phwy nad yw'n cymryd rhan ac i sicrhau bod y canfyddiadau'n adlewyrchu ystod eang o deuluoedd y DU. Yna byddwn hefyd yn dileu'r wybodaeth hon yn ddiogel. Am fanylion llawn, gweler **ein Hysbysiad Preifatrwydd yn gnestudy.info/privacy.**

24-030189-01/M-L03GW

Ipsos | National Centre for Social Research | verian

gnestudy@ipsos.com | 0800 151 0610 | gnestudy.info | @gnestudy | Freepost IPSOS GNE STUDY